DYDD NADOLIG

ESEIA 52:7-10; SALM 98;
HEBREAID 1:1-4 [5-12]; IOAN 1:1-14

● **Gweddi agoriadol**
Rydym yma
i ddatgan newyddion da
o lawenydd mawr,
ac i gyhoeddi
bod yng ngeni'r plentyn Crist
ac yng ngostyngeiddrwydd y stabl
iachawdwriaeth Duw
i bob cenedl dan y nef.

● **Moliant**
Arweinydd: Cenwch i'r Arglwydd gân newydd
Pawb: Oherwydd gwnaeth bethau mawr.

Drwy eiriau proffwydi
a lleisiau angylion
gwnaeth yr Arglwydd ei ewyllys yn hysbys
er iachawdwriaeth y byd.

Arweinydd: Cenwch i'r Arglwydd gân newydd
Pawb: Oherwydd gwnaeth bethau mawr.

Drwy offeiriad a brenin
a gwasanaeth ffyddlon
cadwodd yr Arglwydd ei addewid
i'r rheini a eilw yn blant.

Arweinydd: Cenwch i'r Arglwydd gân newydd
Pawb: Oherwydd gwnaeth bethau mawr.

Yng Nghrist, crewyd
pob peth dan y nefoedd;
a nawr dyma'r dwyfol
yn camu i lawr i'r ddaear.

Arweinydd: Cenwch i'r Arglwydd gân newydd
Pawb: Oherwydd gwnaeth bethau mawr.

● **Cyffes**
Mewn beudy isel,
gâi ei anwybyddu gan bawb
o fewn i furiau Bethlehem,
cyffyrddodd y dwyfol â'r ddaear,
anadlodd yr aer a anadlwn
a cherdded y ddaear a gerddwn.
Wedi'i eni yn aberth;
wedi'i eni i roi bywyd i ni.

Maddau ein harafwch
i gyhoeddi hyn i'r byd;
maddau i ni fod yn anniolchgar
pan anwybyddwn dy air.
Tyrd â ni i'r fan honno
lle clywodd y bugeiliaid
yr angylion yn canu,
ac anfon ni
i ganu'r gân orfoleddus honno.

● **Diolch**
Am ddisgleirdeb
seren Bethlehem,
yn cyhoeddi
i bawb a all weld
fod Ceidwad wedi'i eni,
rhown ddiolch i ti.

Am harddwch
cân yr angylion,
yn cyhoeddi
i bawb a all glywed
fod yr amser yn agosáu,
rhown ddiolch i ti.

Am lawenydd pur
cri'r fam,
yn cyhoeddi
bendith Duw arni
gyda'r fath ffydd a gostyngeiddrwydd,
rhown ddiolch i ti.